# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

<table>
<tr><th colspan="2">RHYBUDD O GYFARFOD</th><th colspan="2">NOTICE OF MEETING</th></tr>
<tr><td colspan="2">PWYLLGOR GWAITH</td><td colspan="2">THE EXECUTIVE</td></tr>
<tr><td colspan="2">DYDD LLUN<br>17 CHWEFROR 2020<br>10.00 o'r gloch</td><td colspan="2">MONDAY<br>17 FEBRUARY 2020<br>10.00 am</td></tr>
<tr><td colspan="2">SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI</td><td colspan="2">COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI</td></tr>
<tr><td>Swyddog Pwyllgor</td><td colspan="2">Ann Holmes<br>01248 752518</td><td>Committee Officer</td></tr>
</table>

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 13 Ionawr 2020 (Cyllideb)
- 20 Ionawr 2020 (Arbennig)
- 27 Ionawr 2020

**4** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024** (Tudalennau 33 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **POLISI CYMORTH DEWISOL TRETHI BUSNES** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **RHENTI'R CRT A THALIADAU'R GWASANAETH TAI 2020/21** (Tudalennau 105 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**8** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 121 - 122)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."

**9** **POLISI GWIRIO AR SAIL RISG - BUDD DAL** (Tudalennau 123 - 144)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor.  Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

151.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos M Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Bob Parry OBE FRAgS, Alun W Mummery a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Glyn Haynes ac Aled M Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Carwyn Jones, R Meirion Jones a Dafydd Rhys Thomas. |

Estynnodd y Cadeirydd ei chydymdeimlad â'r Cynghorydd Carwyn Jones a'i deulu ar eu profedigaeth ddiweddar.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Nid oedd dim materion brys i adrodd arnynt.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2019 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2019 fel rhai cywir.**

**4 CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn ymgorffori'r Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2020/21 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, er bod y sefyllfa gyllidebol ar gyfer 2020/21 yn well na'r disgwyl oherwydd setliad dros dro uwch gan Lywodraeth Cymru, mae'r amgylchiadau ariannol yn parhau i fod yn heriol. Nid yw'r setliad, mewn termau real, ond yn cymharu â lefel darpariaeth Llywodraeth Cymru yn 2012/13. Adroddodd ymhellach fod

Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn codi'r Dreth Gyngor 7.1% er mwyn cydbwyso'u cyllidebau er bod setliad gwell wedi'i roi. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi gostwng oherwydd fe'u defnyddiwyd i gwrdd â phwysau ariannol mewn gwasanaethau statudol lle mae'r galw'n parhau i gynyddu, megis y Gwasanaethau Oedolion ac Addysg. Roedd yr Aelod Portffolio o'r farn y gallai bod angen adolygu cyllideb sylfaenol y gwasanaethau hyn. Dywedodd ymhellach ei fod wedi cynghori'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yn y bore, a'i fod yn dymuno dweud yn yr un modd wrth y Pwyllgor Gwaith, fod angen cymryd agwedd ddarbodus o ran gwneud argymhellion mewn perthynas â Chyllideb Refeniw 2020/21.

Cafodd y Pwyllgor amlinelliad manwl gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o'r rhannau yn yr adroddiad a oedd yn ymwneud â'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2020/21. Amlygwyd ac adroddwyd ar y materion canlynol: -

- Paratoir y gyllideb ar sail y rhagdybiaethau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi, 2019. Mae'r rhain wedi'u hystyried wrth gyfrifo'r gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2020/21;
- Nodwyd y newidiadau yr ymrwymwyd iddynt a'r addasiadau a wnaed i'r gyllideb ym mharagraffau 3.1 i 3.10 o'r adroddiad;
- Mae nifer o gyllidebau wrth gefn wedi'u hadeiladu i mewn i'r gyllideb i dalu costau tymor penodol a nodir y risgiau posib y gallai bod angen cyllid ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn ym mharagraff 4.1 (Tabl 1). Mae'r sefyllfa ariannol well yn 2020/21 yn caniatáu i'r Cyngor leihau'r Gyllideb Wrth Gefn ar gyfer Cyflogau a Graddfeydd gan na ddisgwylir y bydd angen gwneud gostyngiadau sylweddol yn nifer y staff yn 2020/21;
- Costau staff - mae ansicrwydd o ran y dyfarniad tâl i Athrawon sy'n cychwyn ym mis Medi 2020 a hefyd ynghylch y dyfarniad tâl o Ebrill 2020 ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon - mae hyn yn risg i gyllideb y Cyngor gyda phob cynnydd o 1% yn y dyfarniad tâl i staff nad ydynt yn athrawon yn gyfwerth â baich cyllidebol ychwanegol o £450k;
- Galw cynyddol am Ofal Cymdeithasol i Oedolion, gyda niferoedd cynyddol o gleientiaid ar draws pob maes gwasanaeth. Ar gyfer 2019/20 disgwylir i'r Gwasanaeth wario £1.21m yn uwch na'r gyllideb. Mae'r gorwariant net a amcangyfrifwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ar ôl caniatáu ar gyfer 2 grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn £980k ac mae'r swm hwn wedi'i nodi fel yr isafswm sydd raid wrtho i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb. Fodd bynnag, dim ond 1 grant (Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Chynaliadwyedd) sydd wedi'i gadarnhau ar gyfer 2020/21 ac ni chadarnhawyd hyd yma a fydd y Cyngor yn derbyn y Grant Pwysau'r Gaeaf unwaith eto yn 2020/21;
- Mae costau cludiant ysgol wedi bod yn uwch na'r gyllideb a neilltuwyd ers nifer o flynyddoedd oherwydd cynnydd yn y galw ac mae costau'n dal i fod £250k yn uwch na'r gyllideb ac oni chywirir y gyllideb yn 2020/21 bydd y gyllideb hon yn gorwario;
- Cynlluniwyd gostyngiad o £800k yn y gyllideb a ddirprwyir i'r ysgolion ond gohiriwyd y gostyngiad am flwyddyn a defnyddiwyd arian o'r Grant Cyflog Athrawon ychwanegol a 50% o'r Grant Pensiwn Athrawon. Mae'r grantiau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i'r setliad a byddent yn caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith wrthdroi'r penderfyniad i leihau'r gyllideb os yw'n dewis gwneud hynny;
- Yn seiliedig ar yr holl addasiadau a rhagdybiaethau, mae'r gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2020/21 yn £142.203m, sef cynnydd o £6.993m ar gyllideb derfynol 2019/20. Mae'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019 yn dangos cynnydd o £237m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru sy'n gyfwerth â chynnydd o 5.6% mewn termau arian parod. Fodd bynnag, mae £53.2m yn ymwneud â grantiau a drosglwyddwyd i mewn a phan fydd effaith y

newidiadau hyn yn cael ei haddasu ar gyfer ffigwr gwirioneddol, mae'n dangos cynnydd o £183.8m yn y cyllid, sef cynnydd o 4.3%;
- Mae Tabl 4 yn yr adroddiad yn dangos effaith gwahanol lefelau o godiadau yn y Dreth Gyngor ar Dreth Gyngor Band D. Byddai angen cynnydd o 4.64% yn y Band Treth Gyngor i gwrdd â’r gofynion cyllidebol ar gyfer 2020/21;
- Mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2021/22 yn dal i fod yn ansicr ac efallai y gwelir y cyfnod llymder yn dychwelyd a fydd yn golygu y bydd angen arbedion pellach. Mae arbedion o £343k wedi'u nodi fel rhai y gellid eu gweithredu o Ebrill 2020 heb gael fawr o effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor. Pe bai'r arbedion yn cael eu gweithredu a'r arian hwnnw’n cael ei ddefnyddio i gynyddu lefel y balansau cyffredinol neu i ariannu gwariant cyfalaf yn 2020/21, yna byddai hyn yn gadael y Cyngor mewn sefyllfa ariannol well yn 2021/22 gan nad yw gweithredu'r naill neu'r llall o'r opsiynau hyn yn cynyddu’r gyllideb refeniw yn barhaol nac yn lleihau'r cyllid sydd ar gael.

Adroddodd y Cynghorydd Aled M Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y trafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Ionawr, 2020 lle cyflwynwyd y Gyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2020/21. Dywedodd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi argymell i'r Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn: -

- na ddylid gweithredu'r gostyngiad o £800k yn y gyllideb a ddirprwyir i’r ysgolion ac a ohiriwyd o 2019/20;
- peidio â chodi ffioedd parcio yn yr ardaloedd trefol i'r lefel a gynigiwyd;
- na ddylai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 fod yn fwy na 5%.

Dywedodd ymhellach nad oedd yr adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini yn cynnwys unrhyw wybodaeth am gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid nad yw gwybodaeth am gronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ar y cynigion cyllidebol cychwynnol ond bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried adroddiad llawn ar Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau cyn iddo argymell y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb.

Wrth nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd iddo, roedd y Pwyllgor Gwaith yn dymuno diolch i'r staff am eu gwaith yn paratoi'r cynigion cyllidebol cychwynnol. Soniwyd am yr ansicrwydd o ran y dyfarniad cyflog i athrawon a'r pwysau y mae hynny'n ei roi ar gynigion cyllidebol awdurdodau lleol. Dywedodd yr Arweinydd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn trafodaethau â chynrychiolwyr yr Undeb perthnasol a Llywodraeth Cymru a nododd ei bod yn ystyried nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid digonol o fewn y setliad i gwrdd â’r dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y gallai Llywodraeth Cymru roi grant ychwanegol, fel y rhoddwyd y llynedd, i gwrdd â’r diffyg yn y setliad er mwyn cwrdd â’r dyfarniad cyflog i athrawon. Fodd bynnag, dywedodd fod ansicrwydd ar hyn o bryd a roddir grant o'r fath.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo'r addasiadau i'r Gyllideb a gynhwyswyd yn y Gyllideb Ddigyfnewid fel y nodir ym mharagraffau 3 i 7 o'r adroddiad yn Atodiad 1;**

- **Cymeradwyo'r gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2020/21, sef £142.203m, a dylai hyn fod yn sail i gyllideb refeniw 2020/21;**

- **Ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar gynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 o rhwng 4.5% a 5%;**

- **Ar ôl y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor a gweithredu'r arbedion, os oes unrhyw arian dros ben ar gael, dylai'r Pwyllgor Gwaith benderfynu sut i ddefnyddio'r gwarged hwnnw (fel y nodwyd ym mharagraff 10.5);**

- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ymofyn barn y cyhoedd ar y strategaeth gyllidebol arfaethedig.**

**5 CYLLIDEB GYFALAF 2020/21**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn ymgorffori'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid bod gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 a fydd wedyn yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth, 2020. Roedd yr adroddiad yn nodi'r brif raglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2020/21.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn fanwl i'r Pwyllgor am y prif bwyntiau yn yr adroddiad, ac amlygwyd ac adroddwyd ar y materion a ganlyn: -

- Mae'r Strategaeth Gyfalaf gyfredol yn nodi'r egwyddorion i'r Cyngor eu dilyn wrth bennu ei raglen gyfalaf, a dyrennir cyllid cyfalaf bob blwyddyn i sicrhau bod y Cyngor yn buddsoddi yn ei asedau cyfredol h.y. adeiladau'r Cyngor, cerbydau, offer TG, priffyrdd a ffyrdd;
- Cyfeiriwyd at y cyllid cyfalaf (fel y dangosir yn Nhabl 1 yr adroddiad) a oedd yn dangos y cyllid cyfalaf y disgwylir iddo fod ar gael ar gyfer 2020/21 a bod y ffigyrau ar gyfer y setliad cychwynnol i lywodraeth leol yn cyfeirio at y Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chymorth. Mae lefel y cyllid o dan y ddau bennawd hyn wedi aros yn weddol gyson dros nifer o flynyddoedd ac ni ragwelir y byddant yn newid yn sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol;
- Amlinellwyd y sefyllfa o ran rhaglen gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif i'r Pwyllgor;
- Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau CRT yn unig. Mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer defnyddio £5.24m o gronfeydd wrth gefn y CRT yn 2020/21;
- Cyfeiriwyd at y cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt yn 2019/20 fel y dangosir yn Nhabl 2 yr adroddiad, a fydd yn cario drosodd i 2020/21 ond bydd angen cyllid cyfatebol ychwanegol o £75k mewn perthynas â Chynllun Adfywio Caergybi (Rhan II y Fenter Treftadaeth Treflun) ac argymhellir y dylid cynnwys y cynllun hwn yn rhaglen gyfalaf 2020/21;
- Adnewyddu / Amnewid Asedau Cyfredol (fel y dangosir yn Nhabl 3 yr adroddiad). Mae lefel y cyllid yn parhau yn 2021/22 a thu hwnt a bydd rhaglen gyfalaf y Cyngor yn gyfyngedig i adnewyddu ac amnewid asedau cyfredol;
- Cyfeiriwyd at brosiectau cyfalaf 'Unwaith ac am Byth' i'w hariannu yn 2020/21 (fel y dangosir yn Nhabl 4 yr adroddiad) a oedd yn werth cyfanswm o £ 2,174m;
- 'Roedd paragraff 5.4 yr adroddiad yn dwyn sylw at nifer o brosiectau nad oes angen cyllid arnynt yn 2020/21 ond a allai fod angen eu hariannu yn 2021/22 neu wedi hynny.

Adroddodd y Cynghorydd Aled M Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar drafodaethau cyfarfod y Pwyllgor hwnnw ar 13 Ionawr, 2020 lle cyflwynwyd y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21. Dywedodd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi argymell cefnogi'r Rhaglen Gyfalaf o £36.903m ar gyfer 2020/21.

Roedd yr Arweinydd yn dymuno diolch i'r Panel Sgriwtini Cyllid am ei waith mewn perthynas â'r Gyllideb Gyfalaf a'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21.

Wrth nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd, 'roedd y Pwyllgor Gwaith yn dymuno cofnodi bod gan y Cyngor bellach strategaeth ar gyfer cynnal asedau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2020/21 i'r Cyngor llawn: -**

| | **£ 'm** |
|---|---|
| **Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen** | **3,294** |
| **Adnewyddu / Amnewid Asedau** | **5,158** |
| **Prosiectau Cyfalaf Un tro Newydd** | **2,174** |
| **Mân-ddaliadau wedi'u hariannu o dderbyniadau cyfalaf** | **100** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **9,039** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **17,138** |
| | |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2020/21** | **36,903** |
| | |
| **Wedi ei ariannu gan:** | |
| | |
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol** | **2,165** |
| **Benthyca â Chymorth** | **2,364** |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | **245** |
| **Cronfa Gyfalaf** | **500** |
| **Benthyca â Chymorth - Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **2,680** |
| **Benthyca Digymorth – Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **3,679** |
| **Gwarged CRT a Gwarged yn y Flwyddyn** | **14,228** |
| **Benthyca Digymorth CRT** | **250** |
| **Grantiau Allanol** | **7,572** |
| **Cyllid 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen** | **3,219** |
| | |
| **Cyfanswm Cyfalaf Cyllid 2020/21** | **36,903** |

- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried defnyddio'r gronfa wrth gefn TAW Hamdden ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf posib o werthiant arfaethedig y cwrs golff pan gyflwynir fersiwn ddrafft y Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Pwyllgor Gwaith. Bod y £32k sy'n weddill yn cael ei ddwyn ymlaen fel cyllid i'w ddefnyddio yn 2021/22;**

- **Nodi'r gofynion cyllido posib yn y dyfodol ar gyfer 2021/22 ymlaen (fel y nodwyd yn Atodiad 1, Tabl 3 a pharagraff 5.5).**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05 pm.

**Y CYNGHORYDD LLINOS M HUWS**

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Rheolwr Rhaglen (CS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) |

---

DRAFT

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Richard Dew ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen ac nid oedd yn bresennol pan ystyriwyd yr eitem.

### 2. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI: YSGOL CORN HIR AC YSGOL BODFFORDD

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn ymgorffori papur cynnig ar foderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, mewn perthynas ag Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i "adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle arall i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir."

*Gadawodd y Cynghorydd Richard Dew y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater hwn gan ei fod wedi datgan diddordeb personol a rhagfarnus yn y mater.*

Cyflwynodd y Deilydd Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnig i foderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, ac a oedd yn ymwneud yn benodol ag Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd. Cyfeiriodd at y penderfyniad a wnaed ym mis Mai 2019, a oedd yn benderfyniad o eiddo'r Cyngor yn unig, drwy'r Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Gwaith, i ddiddymu'r penderfyniadau gwreiddiol mewn perthynas â moderneiddio

ysgolion yn ardal Llangefni a gofyn i swyddogion edrych o'r newydd ar y materion amrywiol mewn perthynas â moderneiddio ysgolion a'r gofynion dan Gôd Trefniadaeth Ysgolion 2018, ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith maes o law. Mae'r papur cynnig yn rhan o'r broses hon ac yn asesiad mewnol cychwynnol y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo fel sail i ymgynghoriad statudol. Conglfaen y weledigaeth ar gyfer moderneiddio ysgolion yw dyfodol plant yr Ynys a phrif amcan y rhaglen yw creu'r amgylchedd addysgol orau bosib i ganiatáu i athrawon a disgyblion lwyddo, a thrwy hynny hyrwyddo safonau uchel. Gall newid fod yn anodd, a hyd yma mae gweithredu'r rhaglen moderneiddio ysgolion wedi bod yn heriol ar brydiau, ac er ei fod wedi golygu cau rhai ysgolion cynradd ar y naill law, ar y llaw arall mae wedi arwain at fuddsoddiad sylweddol o £22m mewn addysg ar yr Ynys drwy greu tair ysgol newydd ar gyfer cenhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Wrth amlinellu'r broses a'r amserlen i'w dilyn ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus pe cymeradwyid y papur cynnig, anogodd yr Aelod Portffolio yr holl randdeiliaid a phawb sydd â diddordeb i gymryd rhan ac i gyflwyno eu safbwyntiau er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad mor ystyrlon â phosib.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y papur cynnig i'r Pwyllgor Gwaith, gan amlinellu ei gynnwys, a chadarnhaodd y derbyniwyd cyngor cyfreithiol arno, mewn perthynas â'r broses a disgwyliadau'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018. Amlinellodd yrwyr allweddol ar gyfer newid y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni pan gymhwysir y gyrwyr hynny i'r ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni. Dywedodd y rhoddwyd ystyriaeth i un ar ddeg opsiwn/opsiwn amgen rhesymol ar gyfer ardal Llangefni, sydd yn cynnwys Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Daeth dadansoddiad manwl o'r holl opsiynau amgen rhesymol i'r casgliad nad oes yr un datrysiad hyfyw ar gyfer ardal Llangefni gyfan (mae adran 5 y papur cynnig yn cyfeirio at hyn). O'r herwydd, ac oherwydd eu hagosrwydd daearyddol, canolbwyntiwyd ar ganfod datrysiad posib ar wahân ar gyfer dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, a dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn (rhoddir sylw manwl i hyn dan eitem 3 ar y rhaglen).

Rhoddodd y Swyddog grynodeb o'r broses ers mis Mehefin 2019, a oedd wedi golygu nodi'r meini prawf ar gyfer y ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni ac ystyried opsiynau amgen ar gyfer ardal Llangefni gyfan. Gan nad oes unrhyw ddatrysiad hyfyw ar gyfer ardal Llangefni gyfan, mae'r strategaeth foderneiddio wedi arwain at ganolbwyntio ar nodi datrysiadau'n seiliedig ar ddalgylchoedd Ysgol Bodffordd/Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig/Ysgol Talwrn, gan gadw mewn cof yr heriau yn yr ysgolion hynny a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018, a'r angen oherwydd hynny i archwilio'r holl opsiynau amgen rhesymol heblaw cau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn (er, yn wahanol i Ysgol Bodffordd, ni ddynodwyd Ysgol Talwrn yn ysgol wledig dan y côd). Ystyriwyd tair ar ddeg o opsiynau amgen (gan gynnwys y cynnig) ar gyfer Ysgol Bodffordd a deg opsiwn amgen (gan gynnwys y cynnig) ar gyfer Ysgol Talwrn; nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn bodloni'r gyrwyr ar gyfer ardal Llangefni ac nid oeddent yn hyfyw mewn perthynas â darpariaeth addysg yn yr ysgolion yn y tymor hir.

Amlinellodd y Swyddog yr heriau penodol y mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn eu hwynebu (adran 6 yn y papur cynnig). Ystyriwyd a dadansoddwyd tair ar ddeg o opsiynau amgen rhesymol (gan gynnwys y cynnig) ar gyfer Ysgol Bodffordd ac un ar ddeg o opsiynau amgen (gan gynnwys y cynnig) ar gyfer Ysgol Corn Hir yn erbyn y gyrwyr allweddol ar gyfer moderneiddio ysgolion a'r meini prawf ar gyfer y ddarpariaeth addysgol yn ardal Llangefni (adrannau 7 a 9 yn y papur cynnig). Aseswyd pob opsiwn amgen ar gyfer Ysgol Bodffordd o safbwynt yr effaith debygol ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio disgyblion (adran 8). Mae adran 5 y papur yn amlinellu'r opsiynau amgen rhesymol ar gyfer ardal Llangefni a gellir eu crynhoi fel a ganlyn -

- Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn fel y maent;

- ffedereiddio Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gydag Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd);
- ffedereiddio Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (symud Ysgol Corn Hir i ysgol newydd a chynyddu capasiti Ysgol Corn Hir). Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu;
- un ysgol gynradd newydd yn Ardal Llangefni ar gyfer disgyblion Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn;
- ysgol Pob Oed newydd yn Llangefni ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn;
- cynnal gwaith ôl-groniad cynnal a chadw ar yr holl ysgolion;
- ehangu'r holl ysgolion cynradd;
- clystyru, cydweithrediad rhwng ysgolion yn ardal Llangefni;
- defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymuned e.e. Iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg i'r gymuned, chwaraeon, hamdden, gweithgareddau cymdeithasol;
- cydleoli gwasanaethau lleol mewn ysgolion;
- sefydlu ysgolion aml-safle : (CA1 – ar un safle) (CA2 – ar safle arall).

Cadarnhaodd bod yr asesiad wedi dangos bod y cynnig a gyflwynwyd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, effaith niwtral ar y gymuned ac effaith negyddol ar drefniadau teithio rhai disgyblion. Daeth i'r casgliad hefyd y byddai'n rhaid i'r Cyngor liniaru effaith y posibilrwydd o gau Ysgol Bodffordd drwy weithio gyda'r gymuned i sicrhau hyfywedd tymor hir y ganolfan gymuned bresennol a darparu gwasanaeth bws o'r pentref i safle newydd Ysgol Corn Hir ar gyfer disgyblion cymwys, yn unol â pholisi cludiant ysgol yr Awdurdod. Ar ôl ystyried yn ofalus yr opsiynau amgen ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, a'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned a threfniadau teithio disgyblion ar gyfer Ysgol Bodffordd, y cynnig a ffafrir gan yr Awdurdod er mwyn cynnal ymgynghoriad statudol arno yw "adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle arall i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir." Byddai'r cynnig yn golygu adleoli Ysgol Corn Hir i safle newydd, gyda'r ysgol yn parhau i weithredu yn y dyfodol; byddai corff llywodraethu Ysgol Corn Hir yn llywodraethu'r ysgol newydd. Byddai'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod cynrychiolaeth o Ysgol Bodffordd ar y corff llywodraethu a byddai Ysgol Bodffordd yn cau.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i gyflwyno safbwynt y Pwyllgor ar y mater ar ôl i'r Pwyllgor hwnnw ystyried y cynnig yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr, 2020. Adroddodd y Cynghorydd Jones bod nifer dda o gynrychiolwyr o Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno eu safbwyntiau. Ar gychwyn y cyfarfod, cyflwynwyd trosolwg o'r sefyllfa yn Llangefni i'r Pwyllgor ac ar ôl ystyried yr achos dros y cynnig a ffafrir ar gyfer Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd, fel yr amlinellir yn y papur cynnig, roedd y Pwyllgor yn cytuno bod angen ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ond mynegwyd rhai pryderon ynghylch y posibilrwydd o gau Ysgol Bodffordd. Er y gwnaed cynnig amgen i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a chadw Ysgol Bodffordd ar agor, a'i ffedereiddio gydag ysgol arall, ni dderbyniodd y cynnig ddigon o gefnogaeth a phenderfynodd y Pwyllgor yn ffurfiol, gyda chefnogaeth mwyafrif yr aelodau, i argymell y cynnig i "adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir" i'r Pwyllgor Gwaith.

Wrth ddiolch i Sgriwtini am ei gyfraniad, dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Dylan Rees, yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiad arall ar ran y Cyngor, a'i fod wedi cyflwyno sylwadau ar y mater drwy e-bost. Darllenodd y Cadeirydd yr e-bost, a oedd hefyd yn cynnwys copi o gyflwyniad Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Bodffordd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr.

Mae'r Cynghorydd Rees yn amlygu'r pwynt a wnaed yn y cyflwyniad am annhegwch y cynnig, a fyddai'n golygu adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ond a fyddai'n golygu hefyd y byddai Ysgol Bodffordd yn cael ei chau a'i llyncu gan yr Ysgol Corn Hir ac roedd yn teimlo bod hynny'n anghyfartal ac yn anghywir o safbwynt moesol a'i fod, o bosib, yn codi cwestiynau ynghylch cydraddoldeb. Roedd y cynllun gwreiddiol wedi argymell adeiladu ysgol newydd ar y cyd ar gyfer Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac roedd hynny'n ateb tecach. Roedd yn credu mai'r opsiwn gorau oedd y cynnig amgen a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, er na ddenodd gefnogaeth mwyafrif yr aelodau, sef ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a chadw ysgol Bodffordd, a'i ffedereiddio gydag ysgol arall, a gofynnodd i'r Pwyllgor Gwaith ei ailystyried.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y papur cynnig, gan ystyried sylwadau ac argymhelliad Sgriwtini ynghylch y cynnig a ffafrir, ac roedd yn awyddus i bwysleisio bod y cynnig yn cael ei gyflwyno i bwrpas cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn caniatáu i safbwyntiau rhanddeiliaid gael eu casglu a'i bod, o'r herwydd, yn holl bwysig bod pawb sydd â diddordeb yn y mater yn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod y gall ad-drefnu ysgolion fod yn fater anodd, a phwysleisiwyd nad yw rhesymeg sylfaenol y rhaglen foderneiddio ysgolion wedi newid, sef sicrhau'r ddarpariaeth addysg orau bosib ar gyfer plant yr Ynys a gwella effeithiolrwydd ysgolion ym mhob un o ysgolion yr Ynys.

Wrth grynhoi, cyfeiriodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid at gasgliadau'r papur cynnig, sy'n datgan mai'r cynnig yw'r ateb mwyaf effeithiol ym marn y Cyngor, a'i fod yn mynd i'r afael â'r prif yrwyr ar gyfer ardal Llangefni a'r heriau allweddol y mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn eu hwynebu, ac ategodd bwysigrwydd cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Cynigiodd yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig i "adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle arall i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir", ac awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.**

## 3. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI: YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn ymgorffori papur cynnig ar foderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni mewn perthynas ag Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i "gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd plant Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig".

Cyflwynodd y Deilydd Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnig i foderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, ac a oedd yn ymwneud yn benodol ag Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Fel y gwnaeth dan eitem 2, cyfeiriodd at gefndir y mater, pan benderfynodd y Cyngor, drwy'r Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Gwaith, i ddiddymu'r penderfyniadau gwreiddiol mewn perthynas â moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, gan ofyn i Swyddogion edrych o'r newydd ar y gwahanol faterion mewn perthynas â hynny a gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith maes o law. Mae'r papur cynnig yn rhan o'r broses hon ac yn asesiad mewnol cychwynnol y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo fel sail i ymgynghoriad statudol. Cyfeiriodd at weledigaeth yr Awdurdod a ysgogodd ei raglen foderneiddio ysgolion, a'i phrif amcan wrth geisio creu'r amgylchedd addysgol orau posib i ganiatáu i athrawon a disgyblion lwyddo, a thrwy hynny hyrwyddo safonau uchel. Wrth wneud hynny, roedd yn derbyn y gall newid fod yn anodd a hyd yma mae gweithredu'r rhaglen moderneiddio ysgolion wedi bod yn heriol ar

brydiau, a'i fod wedi golygu cau rhai ysgolion cynradd ar y naill law ond, ar y llaw arall, mae wedi arwain at fuddsoddiad sylweddol o £22m mewn addysg ar yr Ynys drwy greu tair ysgol newydd ar gyfer cenhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Wrth amlinellu'r broses a'r amserlen i'w dilyn ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus pe cymeradwyid y papur cynnig, anogodd yr Aelod Portffolio yr holl randdeiliaid a phawb sydd â diddordeb i gymryd rhan ac i gyflwyno eu safbwyntiau er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad mor ystyrlon â phosib.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl ifanc bod y cyflwyniad cyffredinol a roddodd dan eitem 2 ynghylch y prif yrwyr ar gyfer newid a'r meini prawf ar gyfer darpariaeth addysg yng nghyd-destun ardal ehangach Llangefni yn berthnasol yn yr achos hwn hefyd a daeth dadansoddiad o'r holl opsiynau amgen rhesymol ar gyfer y ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni (adran 5 o'r papur cynnig) i'r casgliad nad oes datrysiad hyfyw ar gyfer ardal Llangefni gyfan. O'r herwydd, ac oherwydd eu hagosatrwydd daearyddol, canolbwyntiwyd ar ganfod datrysiad posibl ar wahân ar gyfer dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn a datrysiad ar wahân a dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir (y rhoddir sylw iddo dan eitem 2). Amlinellodd y Swyddog yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn (adran 6) a dywedodd bod deg opsiwn amgen rhesymol (gan gynnwys y cynnig) ar gyfer Ysgol Talwrn a naw opsiwn amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Y Graig wedi cael eu hystyried a'u dadansoddi yn erbyn gyrwyr allweddol moderneiddio ysgolion a'r meini prawf ar gyfer addysg yn ardal Llangefni (adrannau 7 a 8 o'r papur cynnig). Cyfeiriodd y Swyddog at yr opsiynau amgen rhesymol ar gyfer ardal Llangefni, fel yr amlinellir yn adran 5 y papur, a rhoddodd grynodeb ohonynt fel a ganlyn -

- parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn fel y maent;
- ffedereiddio Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gydag Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd);
- ffedereiddio Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (symud Ysgol Corn Hir i ysgol newydd a chynyddu capasiti Ysgol Corn Hir). Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu;
- un ysgol gynradd newydd yn Ardal Llangefni ar gyfer disgyblion Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn;
- ysgol Pob Oed newydd yn Llangefni ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn;
- cynnal gwaith ôl-groniad cynnal a chadw ar yr holl ysgolion;
- ehangu'r holl ysgolion cynradd;
- clystyru, cydweithrediad rhwng ysgolion yn ardal Llangefni;
- defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymuned e.e. Iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg i'r gymuned, chwaraeon, hamdden, gweithgareddau cymdeithasol;
- cyd-leoli gwasanaethau lleol mewn ysgolion;
- sefydlu ysgolion aml-safle (CA1 – ar un safle) (CA2 – ar safle arall).

Mae'r dadansoddiad wedi dangos mai dim ond y cynnig dan ystyriaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio disgyblion yn eu cyfanrwydd. Hefyd, daeth yr asesiad i'r casgliad y bydd rhaid i'r Cyngor liniaru effaith y posibilrwydd o gau Ysgol Talwrn drwy ddarparu cludiant ar gyfer disgyblion cymwys o Ysgol Talwrn i'r ysgol newydd, fwy. Golyga'r asesiad mai'r cynnig a ffafrir gan yr Awdurdod er mwyn cynnal ymgynghoriad statudol arno yw "cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn". Byddai'r cynnig yn golygu ehangu Ysgol y Graig a'i chadw ar agor yn y dyfodol; byddai corff llywodraethu Ysgol y Graig yn llywodraethu'r ysgol fwy. Byddai'r Awdurdod yn ceisio sicrhau cynrychiolaeth o Ysgol Talwrn ar y corff llywodraethu a byddai Ysgol Talwrn yn cau.



DRAFT

Cyflwynodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 14 Ionawr lle craffwyd ar y papur cynnig a lle cafwyd cyfraniadau gan gynrychiolwyr o Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Cynigiwyd opsiwn arall, sef cadw Ysgol Talwrn a'i ffedereiddio ag ysgol arall (Ysgol Llanbedrgoch o bosib, gan fod Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Talwrn wedi dweud wrth y Pwyllgor fod y ddwy ysgol yn cydweithio'n dda), ond ni dderbyniodd y cynnig ddigon o gefnogaeth gan aelodau'r Pwyllgor. Yn dilyn hynny, penderfynodd  y Pwyllgor, gyda chefnogaeth mwyafrif yr aelodau, i argymell y cynnig i "gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig" i'r Pwyllgor Gwaith.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am graffu'n fanwl ar y ddau bapur cynnig.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y papur cynnig, gan gymryd i ystyriaeth argymhelliad Sgriwtini ynghylch y cynnig a ffafrir a nododd mai pwrpas y papur cynnig oedd darparu sylfaen ar gyfer ymgynghoriad statudol a bod rhanddeiliaid yn cael eu hannog i ymateb iddo; pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd hynny er mwyn i'r ymgynghoriad fod mor ystyrlon â phosibl.

Cynigiodd y Deilydd Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig "i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig", ac awdurdodi Swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME) (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolwr Sgriwtini (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Prosiect (Trawsnewid Corfforaethol) (ATR) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, G.O. Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts. |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim.

### 3. COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2019 i'w mabwysiadu.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2019.**

### 4. COFNODION – PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2019 er gwybodaeth.



DRAFT

**Penderfynwyd nodi confnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2019.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Medi, 2020, a nodwyd y newidiadau canlynol -

- **Eitemau Newydd**

  - Eitem 20 – Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol (ar gyfer cyfarfod 2 Mawrth, 2020)
  - Eitem 33 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 1 2020/21 (ar gyfer cyfarfod Medi, 2020)
  - Eitemau 34, 35 a 36 - Adroddiadau monitro perfformiad Cyllideb Refeniw, Cyllideb Gyfalaf a Chyfrif Refeniw Tai 2020/21 (ar gyfer cyfarfod Medi, 2020)

- **Eitemau a Aildrefnwyd**

  - Eitem 3 - Rhenti Tai a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2020/21 (a ddygwyd ymlaen o'r cyfarfod ar 2 Mawrth i'r cyfarfod ar 17 Chwefror, 2020)
  - Eitem 8 - Polisi Rhyddhad Dewisol Adrethi Busnes (yn amodol ar gadarnhad, eitem i'w ddwyn ymlaen o'r cyfarfod ar 2 Mawrth i'r cyfarfod ar 17 Chwefror, 2020)

- **Newidiadau Eraill**

  Yn amodol ar gadarnhad, eitem newydd - Polisi Gwirio Ar Sail Risg – eitem i'w chyflwyno yn y cyfarfod ar 17 Chwefror, 2020
  - Tynnu eitem - Ymgynghoriad ar Ostwng yr Oed Derbyn yn Ysgol Llandegfan (a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer cyfarfodydd 17 Chwefror a 27 Ebrill, 2020) - hyd nes y cadarnheir y dyddiadau a aildrefnwyd.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod o Chwefror i Fedi, 2020 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. ANABLEDDAU DYSGU - TRAWSNEWID CYFLEOEDD DYDD

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn ymgorffori Papur Cynnig ar ddyfodol Cyfleoedd Dydd yn y maes Anabledd Dysgu yn Ynys Môn. 'Roedd yr adroddiad yn gofyn am ganiatâd gan y Pwyllgor Gwaith i ymgynghori'n ffurfiol ar y cynnig i "ddatblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Heulfre."

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol bod angen ail-lunio a moderneiddio'r gwasanaethau cyfleoedd dydd er mwyn -

- datblygu cyfleoedd cynaliadwy i unigolion;
- gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth ymhellach yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol;
- ymateb i atborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ynghylch sut fath o gyfleoedd dydd yr hoffent eu cael yn y dyfodol;

DRAFT

- diwallu anghenion y bobl y mae'r Awdurdod yn eu cefnogi ar hyn o bryd ac i’r dyfodol;
- cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Amlygodd mai'r bobl bwysicaf mewn ymgynghoriad yw'r rheini sy’n cael eu heffeithio ganddo, ynghyd â’u teuluoedd a'u gofalwyr a phwysleisiodd, pe bai'r Pwyllgor Gwaith yn penderfynu bwrw ymlaen ag ymgynghoriad, ei bod hi'n awyddus iddo fod ar sail y gyrwyr canlynol –

- ffocws ar ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau h.y. symud i ffwrdd o dalu am weithgareddau rhagnodedig o fewn amserlen benodol i dalu am ganlyniadau neu ddeilliannau sy'n cynyddu sgiliau, lles a hyder yr unigolyn;
- sicrhau'r un safonau darparu gwasanaeth ar draws yr holl wasanaethau, gyda'r gwasanaethau mewnol ac allanol fel ei gilydd yn canolbwyntio ar sicrhau cynnydd yr unigolyn a chyflawni canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol;
- sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n deg gyda'r un meini prawf asesu a mynediad ar gyfer gwasanaethau mewnol ac allanol;
- sicrhau bod prisiau teg am wasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol yr unigolion sy'n mynychu e.e. gall fod yn briodol talu cyfradd premiwm i gefnogi unigolyn ag anableddau dysgu mwy dwys neu luosog neu anghenion cymorth cymhleth;
- bydd gan ddarparwyr fwy o ryddid a hyblygrwydd i weithio gyda'r bobl y maent yn eu cefnogi i ddylunio a chydgynhyrchu’r gweithgareddau a fydd yn cyflawni'r canlyniadau hynny. Gellir cyflwyno rhai o'r gweithgareddau hyn mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau cymunedol eraill;
- annog darparwyr gwasanaeth, mewnol ac yn allanol, i ddatblygu, addasu a newid mewn ymateb i'r ffordd newydd hon o weithio;
- annog grwpiau yn y gymuned i gynnig lleoliadau â chymorth yn rheolaidd a all ychwanegu at sgiliau unigolyn a sicrhau cynnydd yr unigolyn.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr achos dros newid yn seiliedig ar y gred bod angen diwygio natur y ddarpariaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu er mwyn darparu gwell canlyniadau i'r unigolion hynny yn eu cymunedau lleol ac i sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n parhau i fod yn gynaliadwy ac yn effeithiol i'r dyfodol. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor nifer o gyfleoedd dydd gwahanol ar gael i bobl ag anableddau dysgu. Mae rhai ohonynt yn cael eu darparu'n fewnol gan y Cyngor ei hun a rhai ohonynt yn cael eu comisiynu'n allanol. O dan gyfarwyddyd y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau i Oedolion, trefnwyd cyfres o ymweliadau â gwahanol ganolfannau dydd ar yr Ynys ar gyfer Aelodau Etholedig ym mis Gorffennaf 2019 a helpodd i ddarparu dealltwriaeth gliriach o’r gwasanaethau a ddarperir gan y canolfannau; ar ben hynny, mae Strategaeth newydd ar gyfer Cyfleoedd Dydd i Bobl ag Anabledd Dysgu wedi cael ei mabwysiadu ar ôl ymgysylltu'n ddwys â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch yr hyn yr hoffent ei weld ar ffurf cefnogaeth a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a chynnydd. Mae'r papur cynnig yn ymhelaethu ar yr elfennau hyn a hefyd yn nodi'r heriau allweddol sy'n wynebu'r canolfannau dydd mewnol cyfredol ym Morswyn, Caergybi; Blaen y Coed, Llangoed; Gerddi Heulfre, Llangoed a Gors Felen, Llangefni. Dywedodd y Swyddog mai'r bwriad fel rhan o'r ymgynghoriad yw rhoi cyfeiriad clir ynghylch yr ymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau dros gyfnod o amser, boed hynny yn y sectorau annibynnol neu wirfoddol neu'n fewnol yn y Cyngor er mwyn ymestyn y cyfleoedd i unigolion o fewn eu cymunedau. I'r rheini a chanddynt anghenion mwy dwys a chymhleth, ystyrir bod angen un ganolfan sy’n fwy arbenigol a byddai hynny’n rhan o'r ymgynghoriad - rhagwelir y gallai Gors Felen gyflawni'r pwrpas hwn. Mae'r cynnig hefyd yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth cyfleoedd dydd yn y maes anabledd dysgu yn cael ei chynnig fwy yn y gymuned yn y tymor hir yn hytrach nag mewn canolfan. Y gobaith yw y bydd y cynnig yn darparu mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd gwell a mwy amrywiol i unigolion yn eu cymunedau lleol.

Gwahoddwyd y Cynghorydd G O Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i gyflwyno persbectif y Pwyllgor ar y mater wedi iddo graffu ar y papur cynnig yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr, 2020. Er bod y Pwyllgor yn gwbl gefnogol i'r bwriad o foderneiddio gwasanaethau cyfleoedd dydd i bobl ag anableddau dysgu, dywedodd y Cynghorydd Jones fod y Pwyllgor yn pryderu am y cyfeiriad a wneir at gau tair canolfan gan ei fod yn ystyried ei fod yn gynamserol ar hyn o bryd. Wrth wneud y pwynt y dylai'r broses ymgynghori ganolbwyntio ar gael deialog gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a rhanddeiliaid eraill er mwyn creu'r amodau lle gallent ddylanwadu ar y model cyflawni ar gyfer y dyfodol, penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cefnogi, mewn egwyddor, y bwriad i ymgynghori ar y cynnig i ddatblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu a'i fod yn awdurdodi Swyddogion i gynnal ymgynghoriad ffurfiol arno.

Siaradodd y Cynghorwyr Lewis Davies ac Alun Roberts fel Aelodau Lleol am eu siom ynghylch y cyfeiriad yn y cynnig at gau tair canolfan ddydd, gan nad oeddent yn teimlo ei fod yn sail ar gyfer ymgynghori adeiladol lle gallai unigolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr roi eu barn ar yr hyn sy'n bwysig iddynt a thrwy hynny helpu i lunio ffurf a chyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol. Er mwyn cael trafodaeth gadarnhaol gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a'u cymunedau, anogodd yr Aelodau Lleol y Pwyllgor Gwaith i ddileu'r cyfeiriad at gau canolfannau o'r cynnig a chanolbwyntio'n hytrach yn y lle cyntaf ar gael sgwrs gyda rhanddeiliaid am yr hyn yr hoffent ei gael o'r gwasanaeth cyfleoedd dydd.

Rhoddodd y Pwyllgor Gwaith sylw i'r papur cynnig, yr atborth gan y Pwyllgor Sgriwtini a sylwadau'r Aelodau Lleol ac er ei fod yn derbyn y gosodiad canolog ynghylch yr angen i foderneiddio'r ffordd y darperir cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu, mynegodd amheuon ynghylch y cynnig fel yr oedd wedi ei lunio ar hyn o bryd oherwydd ei fod o'r farn na fyddai efallai'n sicrhau bod y broses yn bwrw ymlaen mewn ffordd mor gadarnhaol ag y gobeithiwyd nac yn annog trafodaeth sydd mor eang â phosib. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd, gan ei bod yn bwysig bod rhanddeiliaid a'u teuluoedd yn deall yr hyn y mae moderneiddio'r gwasanaethau cyfleoedd dydd yn ei olygu a'r hyn sy'n cael ei gynnig, fod angen fersiwn hwylusach a haws ei deall o'r papur cynnig / ymgynghori.

